

Helpu Gartref gyda Mathemateg



**HELPU EICH PLENTYN
LWYDDO GYDA MATHEMATEG**

Gwella hyder gyda
mathemateg trwy ddefnyddio
tasgau pob dydd

Chwaraewch gemau i helpu
gydag adio a thynnu

Gall 5 munud pob dydd wneud
gwahaniaeth mawr

2x


| |
|--------------------|
| $2 \times 1 = 2$ |
| $2 \times 2 = 4$ |
| $2 \times 3 = 6$ |
| $2 \times 4 = 8$ |
| $2 \times 5 = 10$ |
| $2 \times 6 = 12$ |
| $2 \times 7 = 14$ |
| $2 \times 8 = 16$ |
| $2 \times 9 = 18$ |
| $2 \times 10 = 20$ |
| $2 \times 11 = 22$ |
| $2 \times 12 = 24$ |

Dysgu Tablau

- Ymarferwch y tablau am ychydig funudau pob dydd.
- Edrychwch ar y llyfryn "Helpu gartref gyda Tablau" am lawer o syniadau ar sut i'w cofio.

Coginio

- Gofynnwch i'ch plentyn wneud ei hoff rysâit er mwyn ymarfer defnyddio clorian a mesur.
- Wrth dorri cacennau, pitsas a.y.b. gofynnwch iddo/iddi rannu'r bwyd rhwng y nifer o bobl sydd yno. Mae hyn yn cyflwyno ffracsiynau.
- Ymarferwch ddefnyddio'r amser er mwyn gweld pa mor hir mae'n cymryd i goginio rhywbeth.



Siopa



- Pan allan yn siopa defnyddiwch arian a gofynnwch i'ch plentyn weithio allan maint y newid.
- Gofynnwch iddo/iddi amcangyfrif faint fydd y bil siopa wythnosol cyn ichi gyrraedd y til.
- Trafodwch arian poced a faint fedr gael ei gynilo dros gyfnod o wythnosau.

Ffermio




Gofynnwch am gyfrifiadau sydd eu hangen ar y fferm, e.e.

- Faint o dunelli o silwair sydd ei angen i bob cae?
- Faint o fynau gwair gewch chi o bob cae?

Gemau

Mae llawer o gemau yn helpu gyda mathemateg ac yn hwyl i'w chwarae, e.e.

- Pwl
- Dartiau
- Gemau cardiau
- Dominos
- Nadroedd ac ysgolion
- Gwylwch a chwaraewch gemau sydd yn cynnwys sgorio, amseru, cyfri, mesur



Sefyllfaoedd pob dydd

Anogwch eich plentyn i ddyfalu neu amcangyfrif

- Pa mor bell?
- Pa mor hir?
- Faint?

Yna helpwch ef/hi weithio allan os ydynt yn gywir.

Cynllunio dyddiau allan

- Gadewch i'ch plentyn ymuno mewn cynllunio diwrnod allan.
- Gosodwch gyllideb a gwnewch i'r plentyn helpu weithio allan gost y tocyn a'r bwyd, ac amserwch y trip fel bod pawb yn y lle cywir ar yr amser cywir.
- Os yw'r trip dros dwr, gall y plentyn helpu gyda chyfnewid yr arian.



Hobiau a diddordebau



- Gwnewch y mwyaf o ddiddordebau eich plentyn y tu allan i'r ysgol.
- Er enghraifft, gall ddilynwyr pêl droed ragfynegi canlyniadau gemau ac edrych ar dablau'r gynghair. Mae angen sgiliau mathemategol cywir er mwyn llwyddo mewn 'Fantasy-league'!
- Mae gemau cardiau fel Pokémon yn llawn rhifau a chyfrifiadau.

Gwefannau

Dyma ddewis sydd gyda nifer o gemau mathemategol da.

www.bbc.co.uk/bitesize
www.coolmath-games.com
www.bbc.co.uk/schools/games

